CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
5 Ebrill 2017, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, N Jones, A Evans, G Roberts, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Davies, R Edwards, J Evans (Cyngor Sir), A Mummery (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 1 Mawrth 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Dywedodd y Clerc bod Dafydd Rowlands (Adran Tai) yn disgwyl costau gan yr Adran Priffyrdd am gwneud y gwaith
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - Mae y wybodaeth am gyflymder traffig trwy'r pentref wedi cael ei anfon ymlaen at Gan Bwyll ond nid yw y Clerc wedi clywed wrthynt. Bydd y Clerc yn atgoffa Gan Bwyll.
4.3	**Maes chwarae** - Mae Cyng N Jones wedi cael pris arall am gwneud y giat a'r ffens £625 (Gethin Hughes). Mae Robin Roberts wedi gaddo gwneud y gwaith yn y mis nesaf (gweler pris £518 01.06.16). Cytunwyd i rhoi un mis arall i Robin Roberts gwneud y gwaith.
4.4	**Hysbysffwrdd Star** - Mae'r Clerc yn disgwyl pris gan Sion Jones. Hefyd mae angen gwaith ar hysbysffwrdd Penmynydd (cefn newydd)
4.5	**Mynwent Gilead** - Mae Cyng Meirion Jones wedi siarad efo'r swyddogion (Rhos y Gad, oherwydd nhw sy'n gyfrifol ac nid oes swyddogion yn Gilead) a bod yna gytundeb efo'r contractiwr i dorri'r glaswellt 6 gwaith yn ystod y tymor a hefyd i dorri'r gwrych.
4.6	**Mast Penmynydd** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Priffyrdd
5.1	Arbrawf Gorfodaeth (gwybodaeth yn unig) Bydd y Cyngor yn cyflogi cwmni i roi dirwy cosb sefydlog pan fod pobl yn gollwng sbwriel neu'n methu â chlirio baw cwn.
5.2	Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - bydd y Clerc yn anfon linc i'r wefan i aelodau
	Pwyllgor Safonnau
5.3	Nodyn Briffio - Diddordeb Personol a Diddordeb sy'n Rhagfarnu - mae'r Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau drwy e-bost
5.4	Caniatad Arbennig - mae'r Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau drwy e-bost
	Pennaeth Adnoddau
5.5	Grantiau i fudiadau gwirfoddol 2017/2018 - gwybodaeth yn unig
	Pennaeth Dysgu
5.6	Strategaeth ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 - mae'r Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau drwy e-bost
	Llofnod Cadeirydd 17.05.17

	Adran Eiddo
5.7	Yr Hen Ysgol - Penmynydd. Darllenwyd e-bost gan y Cyngor Sir yn dweud - Wrth baratoi'r trwydded fe fydd y Gwasanaeth Gyfreithiol yn codi ffi o £474, ni fydd ffi yn cael ei godi gan y Gwasanaeth Eiddo. Hefyd, fe fydd y Gwasanaeth Gyfreithiol yn codi ffi ychwanegol o £474 mewn perthynas a paratoi'r brydles. Fe fydd y Gwasanaeth Eiddo yn codi ffi o £75.00 mewn perthynas a'r brydles. Bydd y Clerc yn trafod y mater gyda'r Cyngor Sir. Cytunwyd i symud ymlaen a creu pwyllgor i rthedeg yr Hen Ysgol. Mae Cymdeithas Penmynydd yn cynnal cyfarfod wythnos nesaf - mae Cadeirydd y Cyngor Cymuned wedi derbyn gwahoddiad i siarad yn y cyfarfod.
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Comisiwn Ffiniau - Arolwg 2018 o etholaethau seneddol yng Nghymru - ail gyfnod ymgynghori - gwybodaeth yn unig
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	J Roberts Archwiliwr mewnol £46.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Penodi archwiliwr mewnol. Cytunwyd i penodi Mr J D Roberts i archwilio'r cyfrifon 2016/17
8.2	Dyddiad y cyfarfod nesaf - oherwydd bydd yr etholiad 04.05.17, cytunwyd i symud y cyfarfod nesaf i 17.05.17.
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
9.1	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **17.05.17**